

GWINNETT, BUTTON (1735 - 1777), masnachwr, tirfeddiannwr a gwleidydd

Enw: Button Gwinnett

Dyddiad geni: 1735

Dyddiad marw: 1777

Priod: Ann Gwinnett (née Bourne)

Plentyn: Amelia Gwinnett

Plentyn: Ann Gwinnett

Plentyn: Elizabeth Ann Gwinnett

Rhiant: Samuel Gwinnett

Rhiant: Ann Gwinnett (née Emes)

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: masnachwr, tirfeddiannwr a gwleidydd

Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Perchnogaeth Tir; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol

Ganwyd Button Gwinnett yn 1735 yn Down Hatherley, Swydd Gaerloyw, y trydydd o saith o blant y Parch. Samuel Gwinnett (bu farw 1777), offeiriad Anglicanaidd, a'i wraig Ann (g. Emes, bu farw 1767). Fe'i bedyddiwyd ar 10 Ebrill 1735. Roedd hynafiaid Samuel Gwinnett wedi gadael Sir Gaernarfon ac ymgartrefu yn Swydd Gaerloyw yn y 1550au, ond roedd eu cysylltiadau Cymreig yn dal i fod yn gryf. Mae'r cyfenw Gwinnett yn ffurf ar yr enw rhanbarthol Gwynedd. Mam Ann Emes oedd Ann Prise o Forgannwg. Daliai teulu ei chyfnither gefnog Barbara Button diroedd helaeth ym Morgannwg, gan gynnwys maenor y Cotrel a etifeddwyd gan Barbara. Barbara Button oedd mam fedydd Button Gwinnett. Ei frodyr a chwirydd oedd Anna Marie, Samuel, Thomas, Robert, John ac Emilia. Tystiolaeth o gyswllt agos y teulu â Morgannwg yw'r ffaith fod Anna Marie, a fu farw yn bymtheg oed, wedi ei chladdu yn Eglwys St Nicholas yn y Cotrel, a bod Samuel wedi priodi Emilia Button a etifeddodd Barc y Cotrel gan ei modryb.

Cafodd Button Gwinnett ei addysg yn Ysgol y Brenin, Caerloyw. Bu'n gweithio am rai blynyddoedd dros ddau ewythr o fasnachwyr ym Mryste, ac wedyn symudodd i Wolverhampton yn 1755. Yn 1757 priododd Ann Bourne, etifeddes a oedd yn ferch i groser cefnog. Ganwyd iddynt dair merch, Amelia, Ann ac Elizabeth Ann. Bu Button yn masnachu â'r gwladfeydd Americanaidd yn India'r Gorllewin. Nid oes tystiolaeth iddo fod yn rhan o'r fasnach gaethweision. Roedd yn fasnachwr aflwyddiannus, ac yn fethdalwr i bob pwrpas erbyn 1762, ac yn sgil ei fethiant ymfudodd i wladfa Georgia. Erbyn 1765, roedd yn masnachu yn Savannah, Georgia. Cafodd les 500 mlynedd ar Ynys St Catherine, oddi ar arfordir Georgia. Roedd rhai caethweision yn rhan o'r ddaliadaeth honno. Bu'n aflwyddiannus fel perchennog planhigfa, ond gwleidyddiaeth oedd ei brif ddiddordeb. Bu'n ymhél â gwleidyddiaeth leol yn y blynyddoedd 1768-1774. Er ei fod braidd yn anonest wrth daro bargeinion ariannol a chaffael tir, roedd yn un o dirfeddianwyr mwyaf Georgia erbyn 1772. Wynebodd anawsterau ariannol mynych yn America ac yn Lloegr, ac yn ystod ei gyfnod yn Georgia beiodd y rhain ar bolisiau Llywodraeth Prydain.

Yn y blynyddoedd 1775-1776, bu'n wleidydd taleithiol a chenedlaethol gydag enw fel hyrwyddwr ymroddedig annibyniaeth Americanaidd. Roedd yn un o dri chynrychiolydd Georgia yn yr ail Gyngres Gyfandirol yn Philadelphia yn 1776. Gwasanaethodd ar ddau bwyllgor yno, ac ef oedd ail lofnodwr y Datganiad Annibyniaeth (ynghyd â [Francis Lewis](#), a anwyd yng Nghymru, a Thomas Jefferson a hawliai dras Gymreig). Ymadawodd â Philadelphia yn fuan wedyn. Ef oedd arweinydd 'Popular Party' Georgia, a dewiswyd ef ganddynt yn Llefarydd Cyngres Ranbarthol Georgia. Yn sgil y swydd honno llywiodd y gwaith o greu cyfansoddiad Georgia, un a oedd yn neilltuoel o ddemocrataidd am ei gyfnod gan estyn yr etholfraint yn sylweddol. Cyfrannodd at rwystr yniad De Carolina a Georgia.

Ym Mawrth 1777, etholwyd ef yn Llywydd Cyngor Diogelwch Georgia, ac yn sgil hynny ef oedd pencadfridog y milisia. Roedd yn awyddus i arwain cyrch ar Fflorida, o ble roedd Teyrngarwyr yn ymosod ar Georgia. Bu sawl gwrthdaro rhyngddo a swyddog yn y Fyddin Gyfandirol, Lachlan McIntosh, a arweiniodd yn y pen draw at ornest lle cafodd Gwinnett glwyf yn ei goes a achosodd ei farwolaeth ar 19 Mai 1777 trwy gyfuniad o haint, trawma a madredd. Mae peth ansicrwydd ynghylch lleoliad ei fedd, ond gallai fod yn yr Hen Fynwent Wladfaol, Savannah, Georgia. Mae Gwinnett County, ardal o Atlanta, Georgia, wedi ei henwi ar ei ôl.

Er gwaethaf ei ansefydlogrwydd ariannol parhaus, awgryma ei yrfa wleidyddol ei fod yn huawdl a charismataidd. Mewn adroddiad a luniwyd yn fuan ar ôl ei farwolaeth disgrifiwyd ef yn "r o gorffolaeth fawreddog. Mae ei waith yn cynhyrchu cyfansoddiad anarferol o ddemocrataidd Georgia efallai'n awgrymu iddo gyfrannu mwy na'i lofnod yn unig i'r Datganiad Annibyniaeth tra bu yn y Gyngres Gyfandirol.

Awdur

Vivienne Sanders

Ffynonellau

David Williams, *Cymru ac America = Wales and America* (Cardiff 1975), tt. 49-51

Colin Gwinnett Sharp, *Button Gwinnett: Failed Merchant and Plantation Owner, Opportunist Politician, Mountebank, and Founding Father* (Shrewsbury 2015)

[Gwinnett family history](#), cyrchwyd 25.4.22

T. J. Morgan, Prys Morgan, *Welsh surnames* (Cardiff 1985), t. 118

Stan Deaton, [Dispatches from off the Deaton Path: Button Gwinnett](#)

Stan Deaton, [Button Gwinnett 1735-1777](#)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Button Gwinnett](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [73720017](#)

Wikidata: [Q887136](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2022-06-29

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

